# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

**RHAN 5**

DARPARIAETHAU TERFYNOL

## 56 Cychwyn

(1) Daw darpariaethau canlynol y Ddeddf hon i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol—

(a) adrannau 53 i 55, yr adran hon ac adran 57;

(b) unrhyw ddarpariaeth arall i'r graddau y bo'n angenrheidiol i alluogi arfer ar ôl y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol unrhyw bŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf.

(2) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar y diwrnod hwnnw y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn.

(3) O ran gorchymyn o dan is-adran (2)—

(a) caiff bennu gwahanol ddiwrnodau ar gyfer gwahanol ddibenion neu ardaloedd;

(b) caiff gynnwys darpariaeth drosiannol neu arbed.

(4) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn o dan is-adran (2) yn arferadwy drwy offeryn statudol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 56 mewn grym ar 30.4.2015, gweler **a. 56(1)(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/02/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 56.